OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 564 (Cy. 130)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Mai 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *24 Mai 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Tachwedd 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1, 34 a 47(1) o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**), a pharagraffau 1, 2, 4, 4A, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r cyrff eraill hynny yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli'r buddiannau o dan sylw yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Rhagarweiniol

**Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Tachwedd 2022.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Adeiladu" ("*the Building Regulations*") yw Rheoliadau Adeiladu 2010(**4**);

(**1**) 1984 p. 55; diwygiwyd adran 1 gan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) ("Deddf 2004"). Diwygiwyd adran 47 gan O.S. 1996/1905 ac adran 8 o Ddeddf 2004. Am y diffiniad o "prescribed" gweler adran 126 o Ddeddf Adeiladu 1984. Mewnosodwyd paragraff 4A o Atodlen 1 gan adran 8 o Ddeddf 2004; diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 a chan adran 11 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p. 19); a diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 ac adran 40 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984, a pharagraffau 1, 2, 4, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019) ("Gorchymyn 2009").

(**3**) Ychwanegwyd adran 14(7) gan Orchymyn 2009.

(**4**) O.S. 2010/2214, a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/747 (Cy. 89), 2013/2621 (Cy. 258), 2014/110 (Cy. 10), 2015/1486 (Cy. 165), 2016/611 (Cy. 168), 2018/558 (Cy. 97); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

ystyr "y Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy" ("*the Approved Inspectors Regulations*") yw Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010(**5**).

# RHAN 2

## Diwygio'r Rheoliadau Adeiladu

**Diwygio'r Rheoliadau Adeiladu**

**2.** Mae'r Rheoliadau Adeiladu wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 17.

**Diwygio rheoliad 2 o'r Rheoliadau Adeiladu**

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "energy efficiency requirements"—

(i) ar ôl "26B" mewnosoder ", 26C";

(ii) yn lle "and 40" rhodder "40 and 40A, ";

(b) ar ôl y diffiniad o "softened wholesome water" mewnosoder —

";

"system for on-site electricity generation" means a system that produces electricity and has a direct electrical connection to the building in question."

**Diwygio rheoliad 4 o'r Rheoliadau Adeiladu**

**4.** Yn rheoliad 4 (gofynion sy'n ymwneud â gwaith adeiladu), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) This paragraph applies in relation to a building where—

(a) building work is undertaken in respect of that building ("relevant work"), and

(b) Part L of Schedule 1 imposes a requirement in respect of the relevant work.

(5) Notwithstanding paragraph (3), upon completion of the relevant work, any building to which paragraph (4) applies must—

(a) comply with Part F of Schedule 1, or

(b) where the building did not comply with Part F of Schedule 1 before the relevant work was begun, be no more unsatisfactory in relation to it than before the work was begun."

**Diwygio rheoliad 17 o'r Rheoliadau Adeiladu**

**5.** Yn rheoliad 17(2A) (tystysgrifau cwblhau)—

(a) yn is-baragraff (c), hepgorer "consumption";

(b) ar ôl is-baragraff (ca) mewnosoder—

"(cb) regulation 26C (target primary energy rates for new buildings),".

**Diwygio rheoliad 25C o'r Rheoliadau Adeiladu**

**6.** Yn rheoliad 25C (adeiladau newydd: gofynion perfformiad ynni gofynnol)—

(**5**) O.S. 2010/2215, a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/3119, 2013/747 (Cy. 89), 2013/1959, 2014/58 (Cy. 5), 2014/110 (Cy. 10), 2016/611 (Cy. 168), 2018/558 (Cy. 97); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(a) ym mharagraff (a)—

(i) hepgorer "(other than new dwellings),";

(ii) hepgorer "consumption";

(b) ym mharagraff (b), yn lle "new dwellings" rhodder "when a dwelling is erected".

**Mewnosod rheoliad 25D o'r Rheoliadau Adeiladu**

**7.** Ar ôl rheoliad 25C (adeiladau newydd: gofynion perfformiad ynni gofynnol) mewnosoder—

"**Energy efficiency rating**

**25D.** Energy efficiency ratings must be approved by the Welsh Ministers, applying the methodology of calculation and expression of the energy performance of buildings approved pursuant to regulation 24 for new buildings."

**Diwygio rheoliad 26A o'r Rheoliadau Adeiladu**

**8.** Yn rheoliad 26A (cyfraddau defnyddio ynni crai ar gyfer adeiladau newydd)—

(a) yn y pennawd, hepgorer "consumption";

(b) hepgorer "(other than a dwelling)";

(c) hepgorer "consumption".

**Mewnosod rheoliad 26C yn y Rheoliadau Adeiladu**

**9.** Ar ôl rheoliad 26B (gwerthoedd perfformiad ffabrig ar gyfer anheddau newydd) mewnosoder—

"**Minimum energy efficiency rating**

**26C.** Where a dwelling is erected, it must equal or exceed the energy efficiency rating for the dwelling which has been approved pursuant to regulation 25D applying the methodology of calculation and expression of the energy performance of buildings approved pursuant to regulation 24 for new buildings."

**Diwygio rheoliad 27A o'r Rheoliadau Adeiladu**

**10.** Yn rheoliad 27A (cyfrifiadau cyfraddau defnyddio ynni crai)—

(a) yn y pennawd, hepgorer "consumption";

(b) ym mharagraff (1), hepgorer "(other than a dwelling)";

(c) ym mharagraffau (2)(a) a (b), (3)(a)(i) a (ii) a (5), hepgorer "consumption".

**Mewnosod rheoliad 27C yn y Rheoliadau Adeiladu**

**11.** Ar ôl rheoliad 27B (cyfrifiadau gwerthoedd perfformiad ffabrig) mewnosoder—

"**Energy efficiency rating calculations**

**27C.**—(1) This regulation applies where a dwelling is erected and regulation 26C applies.

(2) Not later than the day before the work starts, the person carrying out the work must give the local authority a notice which specifies—

(a) the energy efficiency rating for the dwelling as designed, calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24, and

(b) a list of specifications to which the dwelling is to be constructed.

(3) Not later than five days after the work has been completed, the person carrying out the work must give the local authority—

(a) a notice which specifies—

(i) the target energy efficiency rating for the building, calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24,

(ii) the energy efficiency rating of the building as constructed, calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24, and

(iii) whether the building has been constructed in accordance with the list of specifications referred to in paragraph (2)(b), and if not, a list of any changes to those specifications, or

(b) a certificate of the sort referred to in paragraph (4) accompanied by the information referred to in sub-paragraph (a).

(4) A local authority is authorised to accept as evidence that the requirements of regulation 26C have been satisfied, a certificate to that effect by an energy assessor who is accredited to produce energy performance certificates for that category of building."

**Mewnosod rheoliadau 40A a 40B yn y Rheoliadau Adeiladu**

**12.** Ar ôl rheoliad 40 (gwybodaeth am ddefnyddio tanwydd a phŵer) mewnosoder—

"**Information about systems for on-site generation of electricity**

**40A.**—(1) This regulation applies to building work in respect of a building in relation to which paragraph L2 of Schedule 1 applies.

(2) The person carrying out the work must, not later than five days after the work has been completed, provide to the owner sufficient information about the system for on-site electricity generation in respect of its operation and maintenance requirements so that the system may be operated and maintained in such a manner as to produce the maximum electricity that is reasonable in the circumstances and delivers this electricity to the optimal place for use.

**Information about overheating**

**40B.**—(1) This regulation applies to building work in respect of a building where Part O of Schedule 1 imposes a requirement in relation to building work.

(2) The person carrying out the work must, not later than five days after the work has been completed, give sufficient information to the owner about the provision made in accordance with Part O so that the systems in place further to Part O can be operated in such a manner as to protect against overheating."

**Diwygio rheoliad 42 o'r Rheoliadau Adeiladu**

**13.** Yn rheoliad 42 (profion cyfradd llif awyr awyru mecanyddol)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) This regulation applies where paragraph F1(1) of Schedule 1 imposes a requirement in relation to—

(a) the creation of a new dwelling by building work; or

(b) an existing dwelling which undergoes building work for the provision or extension of any fixed building system for mechanical ventilation.

(1A) Paragraph (1)(b) excludes building work to which Schedule 4 applies.";

(b) ym mharagraff (2)(b), yn lle "." rhodder ", other than when Schedules 3 or 4 apply."

**Diwygio rheoliad 43 o'r Rheoliadau Adeiladu**

**14.** Yn rheoliad 43(4) (profi pwysedd), yn lle "the Independent Airtightness Testing Scheme Limited" rhodder "Elmhurst Energy Systems Limited".

**Mewnosod rheoliad 44ZA yn y Rheoliadau Adeiladu**

**15.** Ar ôl rheoliad 44 (comisiynu) mewnosoder—

"**Commissioning in respect of a system for on-site electricity generation**

**44ZA.**—(1) This regulation applies to building work in respect of a building in relation to which paragraph L2 of Schedule 1 imposes a requirement, but does not apply to the provision or extension of any system for on-site electricity generation where testing and adjustment is not possible.

(2) Where this regulation applies the person carrying out the work must, for the purpose of ensuring compliance with paragraph L2 of Schedule 1, give to the local authority a notice confirming that the system for on-site electricity generation has been commissioned.

(3) The notice must be given to the local authority—

(a) not later than the date on which the notice required by regulation 16(4) is required to be given; or

(b) where that regulation does not apply, not more than 30 days after completion of the work."

**Diwygio Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu**

**16.** Yn Atodlen 1 (gofynion)—

(a) yn Rhan L, ar ôl cofnod L1 mewnosoder—

| "**"On-site generation of electricity** | |
|---|---|
| **L2.** Where a system for on-site electricity generation is installed—<br>(a) reasonable provision must be made to ensure that—<br>(i) the system and its electrical output are appropriately sized for the site and available infrastructure;<br>(ii) the system has effective controls; and | Requirement L2 applies only to dwellings." |

(b) it must be commissioned by testing and adjusting as necessary to ensure that it produces the maximum electricity that is reasonable in the circumstances."

(b) ar ôl Rhan N o Atodlen 1 mewnosoder—

| | |
|---|---|
| **“"PART O OVERHEATING** | |
| **Overheating Mitigation** | |
| **O1.**—(1) Reasonable provision must be made to—<br>(a) limit unwanted solar gains in summer;<br>(b) provide an adequate means to remove heat from the indoor environment.<br>(2) In meeting the obligations in sub-paragraph (1)—<br>(a) account must be taken of the safety of any occupant, and their reasonable enjoyment of the building; and<br>(b) mechanical cooling may only be used where insufficient heat is capable of being removed from the indoor environment without it." | Requirement O1 applies only to the erection of the following buildings—<br>(a) a dwelling;<br>(b) an institution; or<br>(c) any other building containing one or more rooms for residential purposes (other than a room in a hotel).” |

**Diwygio Atodlen 3 i’r Rheoliadau Adeiladu**

**17.**—(1) Mae Atodlen 3 (cynlluniau hunanardystio ac esemptiadau rhag y gofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl, yng ngholofn 2 (person sy’n cyflawni gwaith)—

(a) ym mhob un o resi 7, 8 a 9, hepgorer “, Building Engineering Services Competence Assessment Limited”;

(b) ym mhob un o resi 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 17, 18, 19 ac 20, hepgorer “or Stroma Certification Limited”;

(c) yn rhes 2, ar ôl “NAPIT Registration Limited”, yn lle “,” rhodder “or”;

(d) yn rhes 3, ar ôl “NAPIT Registration Limited”, yn lle “,” rhodder “or”;

(e) yn rhes 4, ar ôl “NAPIT Registration Limited”, yn lle “,” rhodder “or”;

(f) yn rhes 5, ar ôl “Certsure LLP”, yn lle “,” rhodder “or”;

(g) yn rhes 6, ar ôl “Certsure LLP”, yn lle “,” rhodder “or”;

(h) yn rhes 7, ar ôl “Certsure LLP”, yn lle “,” rhodder “or”;

(i) yn rhes 8, ar ôl “NAPIT Registration Limited”, yn lle “,” rhodder “or”;

(j) yn rhes 9, ar ôl “Certsure LLP”, yn lle “,” rhodder “or”;

(k) yn rhes 10, ar ôl “Fenestration Self-Assessment Scheme”, yn lle “,” rhodder “or”;

(l) yn rhes 11, ar ôl “Fenestration Self-Assessment Scheme”, yn lle “,” rhodder “or”;

(m) yn rhes 12, ar ôl “HETAS Limited”, yn lle “,” rhodder “or”;

(n) yn rhes 13, ar ôl “HETAS Limited”, yn lle “,” rhodder “or”;

(o) yn rhes 14, ar ôl “HETAS Limited”, yn lle “,” rhodder “or”;

(p) yn rhes 15, ar ôl “NAPIT Registration Limited”, yn lle “,” rhodder “or”;

(q) yn rhes 17—

(i) yn lle “Cavity Insulation Guarantee Agency” rhodder “Insulation Assurance Authority Limited”;

(ii) ar ôl “Certsure LLP”, yn lle “,” rhodder “or”;

(r) yn rhes 18, ar ôl “Certsure LLP”, yn lle “,” rhodder “or”;

(s) yn rhes 19, ar ôl “Certsure LLP”, yn lle “,” rhodder “or”;

(t) yn rhes 20, ar ôl “Certsure LLP”, yn lle “,” rhodder “or”.

# RHAN 3

## Diwygio’r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy

### Diwygio’r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy

**18.** Mae’r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 19 ac 20.

### Diwygio rheoliad 8 o’r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy

**19.** Yn rheoliad 8(1) (swyddogaethau arolygwyr cymeradwy)—

(a) yn is-baragraff (a)—

(i) ar ôl “26B (fabric performance values for new dwellings),” mewnosoder “26C (target primary energy rates for new buildings),”;

(ii) yn lle “and” o flaen “40” rhodder “,”;

(iii) ar ôl “40 (information about use of fuel and power)” mewnosoder “, 40A (information about systems for on-site generation of electricity) and 40B (information about overheating)”;

(b) yn is-baragraff (b)—

(i) ar ôl “27B,” mewnosoder “27C,”;

(ii) yn lle “and 44” rhodder “, 44 and 44ZA”.

### Diwygio rheoliad 20 o’r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy

**20.** Yn rheoliad 20 (cymhwyso rheoliadau penodol o’r Rheoliadau Adeiladu)—

(a) yn y pennawd—

(i) ar ôl “27B,” mewnosoder “27C,”;

(ii) yn lle “and 44” rhodder “, 44 and 44ZA”;

(b) ym mharagraff (1)—

(i) ar ôl “27B (fabric performance values calculations),” mewnosoder “27C (target primary energy rate calculations for new buildings),”;

(ii) yn lle “and 44” rhodder “, 44”;

(iii) ar ôl “(commissioning)” mewnosoder “and 44ZA (commissioning in respect of a system for on-site electricity generation)”;

(c) ar ôl paragraff (2B) mewnosoder—

“(2C) Regulation 27C(3) of the Principal Regulations applies in relation to building work which is the subject of an initial notice as if after “work has been completed,” there were inserted “or, if earlier, the date on which in accordance with regulation 17 of the Building (Approved Inspectors etc.) Regulations 2010 the initial notice ceases to be in force”.”;

(d) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(6A) Regulation 44ZA of the Principal Regulations applies in relation to building work which is the subject of an initial notice as if for paragraph (3) there were substituted—

“(3) The notice must be given to the approved inspector—

(a) subject to sub-paragraphs (b) and (c), not later than five days after completion of the work to which the initial notice relates;

(b) where regulation 17 of the Building (Approved Inspectors etc.) Regulations 2010 applies, not later than the date on which the initial notice ceases to be in force or, if earlier, the end of the period referred to in sub-paragraph (a);

(c) where regulation 20 applies by virtue of regulation 20 of the Building (Approved Inspectors etc.) Regulations 2010, not later than the date on which the notice or certificate required by that regulation must be given.”””

# RHAN 4

## Darpariaeth Drosiannol

**Darpariaeth drosiannol**

**21.**—(1) Nid yw’r diwygiadau a wnaed gan Rannau 2 a 3 o’r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn achos—

(a) pan fo gwaith adeiladu ar adeilad penodol wedi ei gychwyn cyn y diwrnod y daw’r Rheoliadau hyn i rym yn unol ag unrhyw ddarpariaeth hysbysu berthnasol, neu

(b) pan gydymffurfiwyd â darpariaeth hysbysu berthnasol mewn perthynas â gwaith adeiladu arfaethedig ar adeilad unigol a bod y gwaith adeiladu wedi cychwyn o fewn 12 mis gan ddechrau â’r diwrnod y daw’r Rheoliadau hyn i rym.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr “darpariaeth hysbysu berthnasol” yw rheoliad 12(2) o’r Rheoliadau Adeiladu ac adrannau 47(1), 50, 51A(2) a 54 o Ddeddf Adeiladu 1984.

*Lee Waters*
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

20 Mai 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ("y Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy") fel y maent y gymwys o ran Cymru. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cymhwyso'r metrig newydd ar gyfer mesur effeithlonrwydd ynni ar ffurf cyfradd ynni crai darged i anheddau newydd. Yn flaenorol, roedd cyfraddau defnyddio ynni crai yn gymwys i adeiladau ac eithrio anheddau.

Mae'r diwygiadau hefyd yn cyflwyno sgoriau effeithlonrwydd ynni newydd i adeiladau newydd ac yn cyflwyno rheoliad newydd ar gyfer cynhyrchu trydan ar y safle ac mewn perthynas â gorgynhesu (yn enwedig yn rhinwedd mewnosod paragraff L2 yn Rhan L o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu a Rhan O newydd). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio sut y cymhwysir Rhan F sy'n ymwneud â phrofion llif awyr awyru mecanyddol. Gwneir diwygiadau i'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer gwaith adeiladu ar adeilad penodol pan fo'r gwaith adeiladu wedi ei ddechrau yn unol â darpariaeth hysbysu berthnasol, ar yr amod bod y gwaith adeiladu ar yr adeilad hwnnw eisoes wedi cychwyn, neu ei fod yn cychwyn o fewn 12 mis i ddyfodiad y Rheoliadau hyn i rym.

Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau Adeiladu wedi ei ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i gyrff sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau hunanardystio.

Mae Deddf Adeiladu 1984 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo a dyroddi dogfennau sy'n cynnwys canllawiau ymarferol mewn cysylltiad â'r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r pŵer hwnnw yn arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru.

Mae Dogfen Gymeradwy L Cyfrol 1, rhifyn 2022, Dogfen Gymeradwy F Cyfrol 1, rhifyn 2022 a Dogfen Gymeradwy O, rhifyn 2022 yn cynnwys canllawiau ymarferol ar fodloni'r gofynion newydd a fewnosodir yn y Rheoliadau Adeiladu gan yr offeryn hwn. Mae'r Dogfennau Cymeradwy wedi eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru a gellir eu cyrchu ar www.llyw.cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.